



EAS

Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Well-being and Equity Strategy 2018-2019



Cynnwys

		Rhif y Dudalen
1	Rhagair	1
2	Gweledigaeth	1
3	Diffiniadau	1
4	Strategaeth	2
5	Strwythur a threfniadaeth	3
6	Y Darlun Cenedlaethol	3
7	Grwpiau Cyfeirio'r GCA	5
8	Nodau Addysg y GCA	6
9	Meithrin gallu	6
10	System hunan-wella	7
11	Arlwy Dysgu Proffesiynol	7
12	Cynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed a'r defnydd o ddata	9
13	Diwygio'r Cwricwlwm	9
14	Datblygu partneriaethau	10
15	Arferion effeithiol ym maes Llesiant a Thegwch	10
16	Dogfennau ategol	11

Atodiadau

1	Cylch gorchwyl Grŵp y Strategaeth Llesiant a Thegwch	12
2	Cylch gorchwyl Gweithgor y Strategaeth Llesiant a Thegwch	14
3	Learning Support Schools	16
4	Safonau Cyfranogi	17

Strategaeth Llesiant a Thegwch 2018/19

Mae Strategaeth Llesiant a Thegwch y GCA wedi cael ei lunio i gynorthwyo pob ysgol yn y rhanbarth i ddatblygu ei strategaeth ei hun i gynorthwyo pob dysgwr a phob aelod o'r gweithlu.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r darlun cenedlaethol a rhanbarth ac ategir y strategaeth gan Gyfarwyddiadur/Pecyn Cymorth Llesiant (ar gael ar Hwb).

1. Rhagair

Mae'r Strategaeth Llesiant a Thegwch hon yn cyfuno'r holl gamau rydym ni'n eu gweithredu ar y cyd â'n hysgolion a'n lleoliadau mewn un ddogfen er mwyn gwella canlyniadau i bob dysgwr, ond yn enwedig i grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed.

2. Gweledigaeth

Mae gennym ni ddisgwyliad y gall bob dysgwr deimlo eu bod yn cael croeso yn eu hamgylchedd dysgu ac yn gallu gwneud eu gorau glas, ond eu bod hefyd yn gwybod ble gallant gael cymorth pan fyddant yn cael eu herio'n academaidd neu'n emosiynol, a pha gymorth sydd ar gael iddynt.

3. Diffiniadau

At ddibenion y strategaeth hon, byddwn yn defnyddio'r canlynol fel diffiniad o lesiant a thegwch.

Mae llesiant yn ymwneud â theimlo'n dda a gweithredu'n dda, ac ystyrir fod lefel uchel o lesiant yn golygu fod cyflwr a phrofiadau'r plentyn yn gadarnhaol. Felly, rydym ni'n ystyried y gall dysgwr sydd â lefel uchel o lesiant berfformio'n dda yn academaidd.

Mae gan degwch ym maes addysg ddau ddimensiwn. Y cyntaf yw tegwch, sydd yn ei hanfod yn golygu sicrhau na ddylai amgylchiadau personol a chymdeithasol, er enghraifft, rhywedd, statws cymdeithasol ac economaidd neu darddiad ethnig, rwystro neb rhag cyflawni eu potensial addysgol. Cynhwysiant yw'r ail ddimensiwn, sef sicrhau y caiff pawb addysg sy'n cyflawni safon ofynnol sylfaenol. (oecd.org/education/school/39989494.pdf)


Fodd bynnag, fel rhanbarth, rydym ni'n cydnabod y diffiniad o Lesiant sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ystyr “llesiant”, o ran person, yw llesiant mewn perthynas â’r canlynol: iechyd corfforol, iechyd meddyliol a llesiant emosiynol; amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod; addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden; perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol; cyfraniad a wneir at gymdeithas; sicrhau hawliau a hawlogaethau; llesiant cymdeithasol ac economaidd ac addasrwydd llety preswyl.


O ran plentyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.

O ran oedolyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys rheolaeth ar fywyd pob dydd a chymryd rhan mewn gwaith.

4. Strategaeth



5. Strwythur a threfniadaeth




6. Y Darlun Cenedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru yw'r unig wlad sydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Daeth y ddeddf yn gyfraith yn Ebrill 2015, a daeth i rym yn Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn sefydlu gofynion newydd i Lywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus i gydweithio i ddatblygu arferion i hybu'r saith nod llesiant sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Disgwylir y bydd pob corff cyhoeddus, yn cynnwys Awdurdodau Lleol, yn sefydlu eu hamcanion eu hunain sy'n deillio o'r saith maes.

Dyma'r saith nod llesiant:



Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys swydd statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Gwaith y Comisiynydd yw gweithredu fel ceidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Rhan o'r gwaith yw cynorthwyo cyrff cyhoeddus a monitro'r gwaith a wneir ganddynt i geisio cyflawni'r nodau llesiant.

Nodau llesiant Awdurdodau Lleol

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal Awdurdod Lleol. Mae'n ofynnol iddynt asesu cyflwr llesiant yn lleol, pennu amcanion a llunio cynllun sy'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal leol, gan uchafu eu cyfraniad at y nodau llesiant.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2004 fel dull o hybu llesiant plant a phobl ifanc. Mae CCUHP yn tanategu'r holl waith a wneir gan Lywodraeth Cymru ar ran plant a phobl ifanc. Mae gan Lywodraeth Cymru saith nod craidd sy'n ddehongliad o'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn CCUHP:

- Cael dechrau da mewn bywyd;
- Cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg a dysgu;

- Mwynhau'r iechyd gorau posibl a sicrhau nad yw plant yn cael eu cam-drin na'u herlid, ac nad oes neb yn camfanteisio arnynt;
- Cael manteisio ar gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- Cael gwrandawriad, cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- Cael cartref a chymuned diogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; a
- Heb fod o dan anfantais gan dlodi

(Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru, 2011, tud.3)

7. Grwpiau Cyfeirio'r GCA

Caiff y **Grŵp Strategaeth a Llesiant** ei gynnull a'i reoli gan y GCA, a bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys y canlynol: cynrychiolwyr y GCA, arweinyddion enwebedig Awdurdodau Lleol, aelodau Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent ac Athro Ymchwil. Mae'r cylch gorchwyl yn atodiad un.


Bydd y **Gweithgor Llesiant** yn cynnwys cynrychiolwyr y GCA, Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus, grwpiau Penaethiaid ac asiantaethau partner. Mae'r cylch gorchwyl yn atodiad dau.

Mae **Ysgolion Arweiniol Rhwydweithiau** yn ysgolion yr ystyrir fod ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth ymarferol dda ynghylch llesiant a thegwch. Mae rhestr o ysgolion sy'n cyfranogi yn atodiad tri.

Mae'r **Grŵp Cyfranogiad Disgyblion** yn grŵp o ddisgyblion sy'n cynrychioli pob math o leoliad ysgol, yr ymgynghorwyd â hwy ac y gwrandawyd ar eu safbwyntiau, mewn perthynas â'r dogfennau sy'n cael eu hysgrifennu ynghylch yr agenda llesiant a thegwch. Mae'r safonau cyfranogi yn atodiad pedwar.

8. Nodau Llesiant y GCA mewn perthynas ag Addysg

Mae'r darlun isod yn dangos sut bydd y GCA yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid i gyflawni nodau llesiant y rhanbarth.



Caiff y weledigaeth hon ei chyflawni trwy gyflawni pum Nod Llesiant y GCA.

9. Meithrin Gallu

Bydd y GCA yn cynorthwyo ysgolion a chlystyrau i feithrin y gallu i ddarparu cymorth ac adnoddau rhagorol i sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad cyfartal a bod y sawl y mae arnynt angen cymorth yn cael darpariaeth briodol. Caiff hyn ei gyflawni trwy:

- Gynorthwyo'r ysgolion i sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r holl grantiau a gaiff eu gwario;
- Cynnal cyfarfodydd rhwydweithio ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Chymunedau sy'n gweithio mewn ysgolion;
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n rhoi sylw i arferion sy'n ystyriol o drawma ac effaith Profiadau Andwyol yn ystod Plentynodod ar lesiant dysgwyr; a

- Chydweithio ag Awdurdodau Lleol i gyflawni polisi cenedlaethol yn unol â gofynion yr agenda Tegwch a Llesiant.

10. System hunan-wella

Bydd y GCA yn cydweithio â phartneriaid allweddol i gynorthwyo ysgolion a chlystyrau i wella'r ddarpariaeth ynghylch Tegwch a Llesiant ar bob lefel trwy:

- Ddarparu arlwy dysgu proffesiynol sy'n defnyddio'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth fel adnodd i wella canlyniadau pob dysgwr;
- Creu Cyfeiriadur/Pecyn Cymorth ynghylch Llesiant sy'n cynnwys adnoddau ac astudiaethau achos trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol (bydd y cyfeiriadur/pecyn cymorth ar gael ar y platfform hwb);
- Datblygu 'Archwiliad Tro Llesiant' a wnaiff ganiatáu i ysgolion werthuso'r ddarpariaeth bresennol a nodi blaenoriaethau i'w gwella mewn cysylltiad â'r agenda llesiant.

11. Arlwy Dysgu Proffesiynol

Bydd y GCA yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ym maes Llesiant a Thegwch ac fydd yn mabwysiadu egwyddorion Model Dysgu Proffesiynol Cymru.



Mae'r model Dysgu Proffesiynol (gweler <http://learning.gov.wales/resources/improvementareas/workforce-development/?skip=1&lang=cy>) yn tanategu pob agwedd o gynllunio dysgu.

Mae hyn yn cynnwys safonau cynllunio mewn perthynas â'r canlynol:

- **Cydweithio** – i ba raddau y mae'r dysgu a gynllunnir yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfranogwyr gydweithio mewn sesiynau, ar draws y rhaglen a thu hwnt iddo, â chyfranogwyr eraill yn eu hysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn trioedd a grwpiau o fewn a rhwng ysgolion fel nodwedd allweddol o bob rhaglen.
- **Ymarfer Adfyfyriol** – i ba raddau'r mae'r dysgu a gynllunir yn cynnwys gofynion a chyfleoedd i adfyfrio gan ddefnyddio dull strwythuredig y gellir ei gofnodi. Mae hyn yn cynnwys cnoi cil yn feirniadol ac yn onest ynghylch arferion presennol, a pharodrwydd i dderbyn sylwadau gan bobl eraill ynghylch sut gellir gwella neu ddatblygu arferion.
- **Defnyddio data a thystiolaeth ymchwil** – i ba raddau mae'r rhaglen yn ymateb i beth mae tystiolaeth a data yn ei ddweud wrthym ni am anghenion y system. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau mae'r gweithgareddau yn y rhaglen yn gwneud defnydd o ymchwil a thystiolaeth, ac yn caniatáu i gyfranogwyr ddatblygu eu sgiliau i ddefnyddio ymchwil a data.
- **Cymell a mentora** – cyfraniad cymell a mentora at y drefn o gynorthwyo cyfranogwyr, ac i ba raddau caiff dysgu ei hyrwyddo trwy ryngweithio ag anogwyr a mentoriaid ar raglenni a thrwy ymarfer adfyfyriol yn yr ysgol.

Mae Arlwy Dysgu Proffesiynol 2018/2019 y GCA ar gael i bob ysgol a lleoliad yn y rhanbarth, a chaiff ei ddarparu trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithdai i rannu defnydd effeithiol o arian grantiau, yn cynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, mewn ysgolion uwchradd.
- Dysgu Proffesiynol mewn meysydd allweddol:
 - Darpariaeth effeithiol mewn ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed
 - Ymgysylltu â Theuluoedd a Chymunedau
 - Llais Disgyblion
 - Pontio
 - Defnyddio'r ETLF
 - Gwaith Camu i Mewn Amserol
 - Meistrolï'r sgiliau sylfaenol a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd
 - Tracio
 - Llesiant
 - Datblygiad a Llesiant Plant
 - Pecyn y Strategaeth Iechyd a Llesiant
 - Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned: Cyfarfodydd Rhwydweithiau

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu er mwyn Cau'r Bwlch
- Yr Arlwy Cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)
- Rhaglen SEREN ar gyfer darparwyr addysg ôl-16
- Arweiniad a gweithdai ynghylch mesur a gwella llesiant disgyblion
- Rhaglen Dysgu Proffesiynol benodol ynghylch ymwybyddiaeth o Brofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACE)

Bydd cyfraniad Ysgolion y Rhwydweithiau Dysgu yn allweddol o ran cynorthwyo, cymell a chynnydd arweiniad i ysgolion i ddarparu a gwerthuso'r Arlwy Dysgu Proffesiynol uchod.

12. Cynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed a'r defnydd o ddata

Bydd y GCA yn cynorthwyo ysgolion i dracio a mesur yn effeithiol effaith rhaglenni ymyrryd mewn ysgolion ac effaith gwariant y Grant Datblygu Disgyblion, ac yn cynorthwyo ysgolion i lunio eu prosesau eu hunain i fesur llesiant dysgwyr. Bydd y GCA yn cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio:

- data meintiol yn cynnwys: cynnydd a chanlyniadau grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed, data ynghylch presenoldeb a gwaharddiadau; a
- data ansoddol yn cynnwys: llais disgyblion a chanlyniadau arolygon a gynhelir mewn ysgolion.

13. Diwygio'r Cwricwlwm

Yng Ngorffennaf 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad yn amlinellu ymagwedd at ddiwygio'r cwricwlwm ac yn rhannu syniadau cynnar ynghylch y Meysydd Dysgu a Phrofiad a amlinellir yn nogfen *Dyfodol Llwyddiannus*.

Yn Ionawr 2018, fe wnaeth diweddariadau ychwanegol ddisgrifio cam nesaf y broses ddatblygu, sef nodi 'beth sy'n bwysig' yn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae'r ymagwedd 'beth sy'n bwysig' yn golygu nodi'r elfennau allweddol y dylai pob dysgwr eu profi yn ystod eu taith ar hyd y continwwm dysgu.

Pum teitl drafft cychwynnol ar gyfer meysydd beth sy'n bwysig neu'r Cysyniadau Allweddol yn y Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Lles yw:

1. Mae hyder a chymhwysedd corfforol yn arwain at fuddiannau sylweddol gydol oes o ran iechyd a llesiant *neu* Rydym yn profi'r byd drwy ein corff;
2. Mae profiadau bywyd yn effeithio ar ein teimladau, ein meddyliau a'n cyflwr corfforol;

3. Mae penderfyniadau a wnawn a gweithredoedd dilynol yn effeithio ar ansawdd ein bywyd ni a bywyd eraill;
4. Mae ein hamgylcheddau corfforol, cymdeithasol a diwylliannol yn gysylltiedig â'n hiechyd a'n llesiant; ac
5. Mae perthnasoedd yn ein cysylltu â'n gilydd ac â'r byd.

14. Datblygu partneriaethau

Caiff y nodau uchod eu cyflawni trwy gydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol, partneriaid rhanbarthol allweddol, a Sefydliadau Addysg Uwch.

Trwy gyfrwng y strategaeth hon, bydd y GCA yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu dull amlasiantaethol o weithredu ar y cyd â'r canlynol:

- Heddlu Gwent,
- Achub y Plant,
- Barnardo's,
- Hwb Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Swyddogion Ysgolion Iach

15. Arferion effeithiol ym maes Llesiant a Thegwch

Bydd y canlynol yn cynnig tystiolaeth o effeithiolrwydd y strategaeth hon:

- Bydd Adroddiadau Hunan-arfarnu Ysgolion yn gwerthuso'n fanwl gywir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ynghych llesiant a thegwch sy'n cael eu disgrifio'n effeithiol yng Nghynlluniau Datblygu Ysgolion;
- Bydd ysgolion/lleoliadau yn cyfranogi'n llawn yn yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ym maes llesiant a thegwch;
- Bydd gan bob ysgol arweinydd Llesiant a Thegwch, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Arwain;
- Bydd gan bob ysgol Strategaeth/Polisi Llesiant a Thegwch wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraethwyr;
- Bydd gan Gyrff Llywodraethu bob ysgol Lywodraethwr enwebedig a fydd yn ddolen cyswllt ag arweinydd Llesiant a Thegwch eu hysgol;
- Bydd pob ysgol yn tracio ac yn monitro cynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed i sicrhau eu bod yn cael mynediad at ymyriadau priodol ac yn gwneud cynnydd da dros amser;
- Bydd pob ysgol wedi cyfranogi yn yr arlwy dysgu proffesiynol rhanbarthol ynghylch 'Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACE);

- Caiff arferion da eu cydnabod a'u rhannu trwy gyfrwng astudiaethau achos a gaiff eu cynnwys yn y Cyfeiriadur Llesiant a Thegwch;
- Bydd ysgolion yn cydweithio â'u dysgwyr i ddefnyddio'r Archwiliad Tro Llesiant i lywio blaenoriaethau datblygu ysgolion;
- Bydd ysgolion yn gallu dangos eu bod yn cydweithio rhagor ag asiantaethau priodol i ategu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed;
- Bydd ysgolion yn dangos eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o'u Grant Datblygu Disgyblion (PDG).
- Gall clystyrau benodi cynrychiolydd a fydd yn mynychu cyfarfodydd rhwydweithiau ar ran y clwstwr neu gellir anfon cynrychiolwyr ysgolion.
- Bydd clystyrau yn gallu dangos eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o'u Grant Datblygu Disgyblion sy'n Derbyn Gofal (LAC PDG).

16. Dogfennau ategol

- Y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Cyfeiriadur a Phecyn Cymorth Llesiant
- Adnodd yr Archwiliad Tro Llesiant
- Strategaeth ynghylch Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog
- Pecyn Cymorth EAL
- Adroddiadau ynghylch Astudiaethau Achos

Atodiad 1 - Cylch gorchwyl Grŵp y Strategaeth Llesiant a Thegwch

Diben Craidd

Darparu fforwm ar gyfer trafodaeth ranbarthol ac i gynnig cymorth a her allanol hefyd, ynghylch datblygiad Strategaeth Llesiant a Thegwch y GCA a fydd ar gael i bob ysgol a lleoliad.

Aelodaeth

GCA, Rheolwr Gyfarwyddwr	Debbie Harteveld
GCA, Arweinydd Llesiant a Thegwch	Kathryn Bevan
Caerffili	Sarah Ellis
Torfaen	Dermot McChrystal
Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd/Ymgynghorydd ym maes Iechyd y Cyhoedd, Tîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan Gwent	Mererid Bowley
Arweinydd Thema, Tîm Gweddnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent	Philip Diamond
Sefydliad Addysg Uwch (heb ei gadarnhau eto)	Yr Athro David Egan
Cadeirydd Grŵp Strategaeth Penaethiaid y Rhanbarth	John Kendal
Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent	Eleri Thomas
Uwcharolygydd, Heddlu Gwent	Michael Richards
Cyfarwyddwr Is-adran Teuluoedd a Therapi, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Dr David Williams

Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfod o grŵp y strategaeth o leiaf unwaith bob tymor; gellir cynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fydd angen hynny.

Agendâu

Caiff agendâu a dogfennaeth eu hanfon at bob aelod o grŵp y strategaeth.

Cofnodion

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd, caiff cofnodion drafft eu hanfon at aelodau grŵp y strategaeth o fewn wythnos wedi'r cyfarfod.

Hysbysu Ysgolion

Bydd Arweinyddion Llesiant ysgolion/lleoliadau/clystyrau yn hysbysu ysgolion am benderfyniadau grŵp y strategaeth.

Cyfrifoldebau

1. Llunio, cymeradwyo a monitro'r strategaeth Llesiant a Thegwch a mynychu bob cyfarfod.
2. Monitro'r cynllun darparu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth Llesiant a Thegwch.
3. Annog pob ysgol â lleoliad i gyfranogi yng nghynllun darparu'r strategaeth.
4. Hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n rhan o'r strategaeth.
5. Annog cydweithio a chwalu unrhyw rwystrau a all atal cyflawni cynllun darparu'r strategaeth Llesiant a Thegwch.
6. Rhybuddio'r grŵp am unrhyw risgiau ac anawsterau posibl a allai effeithio ar y prosiect, pan fyddant yn codi.

Atodiad 2 - Cylch gorchwyl Gweithgor y Strategaeth Llesiant a Thegwch

Diben Craidd

Darparu fforwm ar gyfer cynllunio rhanbarthol ynghylch datblygiad Strategaeth Llesiant a Thegwch y GCA a fydd ar gael i bob ysgol a lleoliad.

Aelodaeth

GCA, Arweinydd Llesiant a Thegwch	Kathryn Bevan
Cynrychiolydd Caerffili	Bronwen Cox
Cynrychiolydd Torfaen	Donna Lewis
Cynrychiolydd Casnewydd	Martin Dacey
Cynrychiolydd Sir Fynwy	Richard Austin
Cynrychiolydd Blaenau Gwent	Rob Lewis
Cynrychiolydd yr Hwb Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod	Sian Griffiths
Swyddog Gweddnewid AEN	Tracey Pead

Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd grŵp y strategaeth unwaith bob hanner tymor.

Agendâu

Caiff agendâu a dogfennaeth eu hanfon at bob aelod o'r gweithgor.

Cofnodion

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd, caiff cofnodion drafft eu hanfon at aelodau grŵp y strategaeth o fewn wythnos wedi'r cyfarfod.

Hysbysu Ysgolion

Bydd Arweinyddion Llesiant ysgolion/lleoliadau/clystyrau yn hysbysu ysgolion am benderfyniadau grŵp y strategaeth.

Cyfrifoldebau

1. Gweithredu'r cynllun darparu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth Llesiant a Thegwch.
2. Annog pob ysgol â lleoliad i gyfranogi yng nghynllun darparu'r strategaeth.

3. Hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n rhan o'r strategaeth.
4. Annog cydweithio a chwalu unrhyw rwystrau a all atal cyflawni cynllun darparu'r strategaeth Llesiant a Thegwch.
5. Rhybuddio'r grŵp am unrhyw risgiau ac anawsterau posibl a allai effeithio ar y prosiect, pan fyddant yn codi.

Atodiad 3 – Ysgolion sy'n Cynorthwyo â Dysgu Proffesiynol

Maes yr LNS	Ysgol/Clwstrwr a Ddewiswyd	Math o Ysgol	ALI
EAL	Ysgol Gynradd Pillgwenlli	C	Casnewydd
Tegwch a Llesiant	Ysgol Genethod Lewis	U	Caerffili
Tegwch a Llesiant	Basaleg	U	Casnewydd
Tegwch a Llesiant	Abersychan	C	Torfaen
Tegwch a Llesiant	Ysgol Gatholig Sant Joseff	P	Blaenau Gwent
Tegwch a Llesiant	Ringland	C	Casnewydd
Tegwch a Llesiant	Cefn Fforest	C	Caerffili
Tegwch a Llesiant	Llys Malpas	C	Casnewydd
Clwstrwr LAC	Gorllewin Mynwy (+UCD)	C	Torfaen
Mwy Galluog a Thalentog	Ysgol Y Castell	C	Caerffili
Mwy Galluog a Thalentog	Sant Martin	U	Caerffili
Mwy Galluog a Thalentog	Drenewydd Gelli-farch	C	Sir Fynwy
Mwy Galluog a Thalentog	Ysgol Gyfun Trefynwy	U	Sir Fynwy
Mwy Galluog a Thalentog	Ysgol Gynradd Maendy	C	Torfaen
Mwy Galluog a Thalentog	Ysgol Cil-y-coed	U	Sir Fynwy

Atodiad 4 – Safonau Cyfranogi

Yng Nghymru, mae saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc i helpu cyrff ac unigolion i sicrhau proses, ansawdd a phrofiad yr holl waith sy'n ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc.

Mae'r Safonau yn nodi'r ystyriaethau allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafodd y gwaith ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, a nododd rôl Safonau Cyfranogiad mewn canllawiau. Seilir y Safonau hefyd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod cyfranogiad plant wrth galon gwella llesiant.

Gellir lawrlwytho copi o'r safonau trwy glicio ar y ddolen hon:

[Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc](#)